

Etholiadau cynghorau plwyf a chymuned yng Nghymru a Lloegr

Canllawiau i ymgeiswyr

Rhan 4 o 6 - Yr ymgyrch

Medi 2018

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i etholiadau cynghorau plwyf a chymuned yn unig. Nid yw'n berthnasol i etholiadau cynghorau dosbarth, bwrdeistref, sir, bwrdeistref sirol ac awdurdodau unedol, nac etholiadau maerol. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau ar gyfer pob etholiad lleol yng Nghymru a Lloegr o'n gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents>.

2

Cynnwys

Yr ymgyrch	4
Beth i'w wneud a pheidio â'i wneud wrth ymgyrchu.....	5
Pryd allwch chi gychwyn ymgyrchu?	5
Pryd fydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol?.....	5
Yn ystod yr ymgyrch, fe gewch chi.....	6
Yn ystod yr ymgyrch, fe ddylech chi.....	6
Yn ystod yr ymgyrch, rhaid i chi beidio â.....	7
Defnyddio'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol	8
Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cofrestrau etholiadol a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol.....	8
Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol	9
Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus	9
Beth i'w wneud ac i beidio â'i wneud o ran cyhoeddusrwydd i'ch ymgyrch.....	10
Defnyddio argraffnod.....	11
Beth yw argraffnod?.....	11
Ble ddylech chi roi'r argraffnod?	12
Cyfyngau cymdeithasol	12
Gwefannau a deunydd electronig arall	13
Beth i'w wneud a pheidio â'i wneud ar ddiwrnod y bleidlais.....	13
Cynnal hygrededd yr etholiad	14
Rhestr o droseddau	15
Llwgrwobrwyo.....	15

Tretio	15
Dylanwad gormodol.....	15
Cambersonadu.....	16
Datganiadau ffug	16
Am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd.....	16
Ar bapurau enwebu	16
Gwybodaeth gofrestru ffug a chais ffug am bleidlais trwy'r post/trwy ddirprwy	16
Cais ffug am bleidlais trwy'r post neu trwy ddirprwy	17
Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy .	17
Torri cyfrinachedd y bleidlais.....	17
Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch.....	17
Casineb hiliol	17
Rhoi adroddiad ar honiadau o gamweddau etholiadol	18
Beth os byddwch wedi gwneud camgymeriad? .	18

Yr ymgyrch

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein canllawiau ar ymgyrchu mewn etholiad cyngor plwyf yn Lloegr ac etholiad cyngor cymuned yng Nghymru.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'rhaid' i gyfeirio at ofyn cyfreithiol penodol a 'dylech' ar gyfer arfer sy'n cael ei argymhell.

Mae'r dyddiadau cau yn y ddogfen hon yn rhai generig. Rydym wedi cyhoeddi [amserlen etholiad generig ar ein gwefan](#). Unwaith i etholiad gael ei galw, byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

Ar gyfer yr etholiadau sydd i'w cynnal ddydd Iau 2 Mai 2019, ry'n ni wedi cyhoeddi [amserlen etholiad](#), y gallwch lawrlwytho o'n gwefan.

Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â'ch tîm Comisiwn Lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein [Dogfen trosolwg](#) am fanylion cyswllt.

Daw deddfwriaeth diogelu data ddiwygiedig i rym o 25 Mai 2018 a bydd yn gymwys i'r gwaith o brosesu'r holl ddata personol.

Cysylltwch â [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) i gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn effeithio arnoch chi.

Beth i'w wneud a pheidio â'i wneud wrth ymgyrchu

Pryd allwch chi gychwyn ymgyrchu?

- 1.1 Gallwch gychwyn ymgyrchu ar unrhyw amser. Nid oes raid i chi aros neb byddwch wedi cael eich enwebu yn ddilys i ddatgan y byddwch yn sefyll yr etholiad, gofyn i bobl eich cefnogi neu gyhoeddi deunydd ymgyrch.
- 1.2 Bydd cyfyngiadau gwario etholiad yn weithredol o'r diwrnod ar ôl y dyddiad pan fydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol. Am ragor o wybodaeth ar wariant etholiad, gweler ein nodyn [canllaw ar wariant ymgeisydd mewn etholiadau cyngor plwyf a chymuned](#).

Pryd fydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol?

- 1.3 Y cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad h.y. y 25^{ain} diwrnod gwaith cyn yr etholiad.
- 1.4 Byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y diwrnod yma os byddwch wedi datgan eich hun i fod yn ymgeisydd yn barod ar gyfer yr etholiad (neu fod unigolyn arall wedi datgan eich bod chi'n ymgeisydd).
- 1.5 Os byddwch chi neu eraill yn datgan y byddwch yn ymgeisydd yn yr etholiad ar ôl y dyddiad hwn, byddwch yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad y gwneir datganiad o'r fath, neu ar y dyddiad y byddwch yn cyflwyno eich papurau enwebu, prun bynnag sydd gynharaf.
- 1.6 Unwaith y byddwch wedi dod yn ymgeisydd yn swyddogol, mae gennych hawl i gopi o'r gofrestr etholiadol. Mae hefyd hawl gennych i gopi o'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer y plwyf/gymuned, neu os bydd eich plwyf/cymuned wedi ei wardio, ar gyfer y ward y byddwch yn sefyll ynddi. Gallwch hefyd ddefnyddio ystafelloedd ac ysgolion

6

a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus (gweler paragraff **1.20** isod).

Yn ystod yr ymgyrch, fe gewch chi...

- Annog pobl nad ydynt ar y gofrestr etholiadol i wneud cais i gael eu cofrestru. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio mewn pryd ar gyfer etholiad yw 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Gall unigolion gofrestru ar-lein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am bwy all gofrestru yn www.fymhleidlaisi.co.uk.
- Helpu pleidleiswyr gyda gwybodaeth am bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy – gallwch ddod o hyd i wybodaeth yn www.fymhleidlaisi.co.uk. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud am bleidlais bost ar gyfer yr etholiadau yw 5pm ar yr 11^{eg} diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer yr etholiadau yw 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Gall etholwr wneud cais am bleidlais ddirprwy mewn argyfwng os, ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais, eu bod yn destun argyfwng meddygol, neu'n cael eu galw i ffwrdd ar fusnes.

Yn ystod yr ymgyrch, fe ddylech chi...

- s byddwch yn datblygu eich ffurflenni cais eich hun, sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, neu bydd y ceisiadau'n cael eu gwrthod. Yn arbennig, fe ddylech sicrhau bod y meysydd llofnod a dyddiad geni ar ffurflenni cais pleidleisiau drwy'r post a thrwy ddirprwy ar y ffurf gywir. Dylech ddefnyddio ein ffurflenni cais pleidleisio absennol ar www.fymhleidlaisi.co.uk fel canllaw. Dylech drafod gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fydd gallu rhoi ffurflenni i chi eu defnyddio.
- Sicrhewch bod eich cefnogwyr yn dilyn ein [cod](#) ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr ym Mhyrdain Fawr - bydd hyn yn eu helpu i osgoi sefyllfaoedd pan ellir amau eu gonestrwydd neu eu didwylledd.

Dylid anfon ceisiadau cofrestru neu am bleidlais absennol sydd wedi eu cwblhau a'u rhoi i chi, at y Swyddog Cofrestru Etholiadol o fewn deuddydd o'u derbyn.

Ni ddylech fyth ddelio neu gymryd papru pleidleisio neu becyn pleidleisio post wedi'l gwblhau gan bleidleiswyr.

- Sicrhewch bod eich cefnogwyr yn gwrtais wrth ddelio gydag ymgeiswyr eraill a'u cefnogwyr.
- Cofiwch am y dyddiadau cau ar gyfer penodi asiantau i fynd i sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, gorsafodd pleidleisio a'r cyfrif. Nodir y dyddiadau cau yn ein dogfen gyfarwyddyd [Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd annibynnol](#) a [Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid](#).
- Gwiriwch ein canllawiau ar sut y bydd agor pleidleisiau drwy'r post, y broses bleidleisio a'r cyfrif yn gweithio fel eich bod yn gwybod beth allwch chi ddisgwyl i ddigwydd a phryd gweler [rhan 5 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol](#).
- Gwiriwch fod eich systemau ar gyfer cofnodi gwariant a rhoddion yn gweithio. Am ragor o wybodaeth ar roddion a gwariant etholiad, gweler [Rhan 3: Gwariant a rhoddion](#).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr o ran sut mae cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yn effeithio ymgyrchu etholiadol. Mae copi o'u canllawiau ar gael yma: <http://www.equalityhumanrights.com/electoral-guidance>

Yn ystod yr ymgyrch, rhaid i chi beidio â...

- Gwneud datganiad anwir gan wybod hynny o ran cymeriad ymgeisydd arall.
- Talu canfaswyr. Mae canfasio yn golygu ceisio darbwyllio etholwr i bleidleisio dros neu yn erbyn ymgeisydd neu blaid benodol.

1.7 Gellir gweld rhagor o wybodaeth am droseddau etholiad a sut i adroddi arnynt yn ddiweddarach yn y ddogfen hon (o baragraff **1.43**).

1.8 Os byddwch chi wedi gwneud camgymeriad ac wedi gweithredu yn groes i'r rheolau, gallwch wneud cais am ryddhad o ganlyniadau gwneud camgymeriad. Gweler paragraff **1.65** am ragor o wybodaeth.

Defnyddio'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol

1.9 Unwaith y byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol fel yr esboniwyd ym mharagraffau **1.3** i **1.5**, mae gennych hawl i dderbyn copi am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn a'r rhestrau o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy ('y rhestriau pleidleiswyr absennol') ar gyfer y plwyf/y gymuned neu, os bydd eich plwyf/cymuned wedi ei rannu yn wardiau, y ward y byddwch yn sefyll ynddi.

Cyfyngiadau ar ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cofrestrau etholiadol a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol

1.10 Mae'r gofrestr etholiadol lawn a'r rhestrau pleidleiswyr absennol yn cynnwys data personol pobl ac felly mae'r defnydd ohonynt yn cael ei reoli'n ofalus iawn.

1.11 Gallwch eu defnyddio i:

- lenwi eich ffurflen enwebu
- helpu eich ymgyrch
- gwirio bod rhoddion a benthyciadau gan unigolion yn rhai a ganiateir

1.12 Rhaid i chi beidio â rhyddhau unrhyw fanylion sy'n ymddangos yn y gofrestr lawn yn unig nad ydynt yn ymddangos yn y fersiwn olygedig o'r gofrestr sydd ar gael i'w gwerthu yn gyffredinol.

1.13 Os byddwch wedi darparu copi o'r gofrestr neu'r rhestrau pleidleiswyr absennol i ymgyrchwyr, rhaid iddynt hwythau gadw at y gofynion uchod.

1.14 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw'r gofrestr etholiadol a'r rhestr pleidleisio absennol yn ddiogel. Unwaith bod amser yn dod nad oes angen y gofrestr a'r rhestrau pleidleisio

Mae dwy gofrestr. Pam?

Gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir y gofrestr olygedig hefyd).

Y gofrestr etholiadol

Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, megis sicrhau mai dim ond pobl sy'n gymwys i wneud all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith, megis canfod trosedd (e.e. twyll), galw pobl i wasanaeth rheithgor a gwirio ceisiadau credyd.

Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau. Gall gael ei brynu gan unrhyw berson, cwmni neu sefydliad. Er enghraifft, caiff ei ddefnyddio gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad. Gall etholwyr ofyn nad yw eu henw na'u cyfeiriad yn cael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

Mae gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig hawl i dderbyn copi o'r gofrestr etholiadol llawn ar unrhyw adeg.

absennol arnoch at ddibenion etholiadol, dylech ddinistrio unrhyw gopiâu a roddwyd i chi fel ymgeisydd yn ddiogel yn unol â [chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol

1.15 Rhaid i chi ofyn am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Gallwch ddod o hyd i'r manylion cyswllt yn www.fymhleidlaisi.co.uk.

1.16 Rhaid i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig ac rydym wedi sicrhau bod [ffurflen cais am gofrestr](#) a [ffurflen gais am restrau pleidleiswyr absennol](#) ar gael i'r diben hwn ar ein gwefan.

1.17 Bydd y gofrestr a'r rhestrau yn cael eu darparu ar fformat electronig oni bai eich bod yn gofyn yn benodol am gopi papur.

1.18 Bydd y fersiwn o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau y byddwch yn eu derbyn yn gyfredol ar adeg i chi wneud cais amdanynt. Gallwch hefyd ofyn am ddiweddariadau i'r cofrestrau etholiadol a'r rhestrau a gyhoeddir yn y cyfnod sy'n arwain at y bleidlais gan gynnwys y rhestr o etholwyr cofrestredig newydd pan gaiff ei gyhoeddi pum diwrnod gwaith cyn y bleidlais.

Defnyddio ysgolion ac ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

1.19 Efallai y byddwch am gysylltu â'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan hyrwyddo eich barn ac ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

1.20 Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cadw rhestr o'r holl ystafelloedd cyfarfod addas yn eu hardal a'u hargaeledd, a bydd yn sicrhau bod hon ar gael i ymgeiswyr ac asiantau i'w

Bydd unrhyw berson sy'n torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholiadol yn gallu wynebu dirwy ddiderfyn.

Nid yw hawl ymgeiswyr i ddefnyddio ystafelloedd yn cynnwys oriau pan fydd ysgol yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion addysgol. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw archeb flaenorol ar yr ystafell gyfarfod gael blaenoriaeth.

10

harchwilio o'r diwrnod pan gyhoeddir yr hysbysiad o etholiad hyd y diwrnod ar ôl y bleidlais. Unwaith y byddwch yn ymgeisydd fel a osodir ym mharagraffau **1.3 i 1.5**, cewch ddefnyddio ystafelloedd cyhoeddus hyd nes y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio. Gellir gweld y manylion cyswllt ar www.fymhleidlaisi.co.uk.

1.21 Dylech gysylltu â pherchennog yr adeilad i archebu lle, gan roi rhybudd rhesymol i leihau'r risg o weld eich cais yn cael ei wrthod.

1.22 Nid oes tâl llogi am ddefnyddio'r ystafelloedd hyn, ond bydd raid i chi dalu am unrhyw gostau a dynnir, fel gwres, golau a glanhau, ac am unrhyw ddifrod i'r adeilad.

Beth i'w wneud ac i beidio â'i wneud o ran cyhoeddusrwydd i'ch ymgyrch

1.23 Rhaid i chi wneud y canlynol:

- Defnyddio argraffnod ar eich holl ddeunydd ymgyrchu ac unrhyw ddeunydd ymgyrchu electronig sydd wedi'u gynllunio i'w argraffu'n lleol. Dylech sicrhau bod yr argraffnod yn glir ac yn weladwy. Gweler paragraff **1.26** isod am ragor o wybodaeth.
- Cadw at reolau cynllunio yn ymwneud â byrddau hysbysebu a baneri mawr – dylech ofyn i'r awdurdod lleol perthnasol am gyngor.
- Cofiwch sicrhau bod posterï sydd tu allan yn cael eu tynnu yn brydlon ar ôl yr etholiad – rhaid i chi wneud hyn cyn pen pythefnos.

1.24 Dylech wneud y canlynol:

- Cynnwys argraffnod ar bob denydd ymgyrchu nad yw wedi'i argraffu, gan gynnwys gwefannau.
- Ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, sydd ag anawsterau dysgu neu

sgiliau llythrennedd prin, neu nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, neu, yng Nghymru, y Gymraeg. Efallai y byddwch am gysylltu â grwpiau anabledd yn eich ardal leol i gael cyngor.

1.25 Rhaid i chi beidio â gwneud y canlynol:

- Cynhyrchu deunydd sy'n edrych yr un fath â'r cardiau pleidleisio a anfonir i'r pleidleiswyr gan y Swyddog Canlyniadau.
- Talu i bobl arddangos eich hysbysebion (oni bai eu bod yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol).

Defnyddio argraffnod

Beth yw argraffnod?

1.26 Yn ôl y gyfraith rhaid i argraffnod gael ei ychwanegu at ddeunydd ymgyrch i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn dryloyw. Dylech sicrhau bod eich argraffnod yn glir a gweladwy.

Beth sydd angen i chi ei gynnwys?

1.27 Ar ddeunydd printiedig, fel taflenni a phosteri, rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad:

- yr argraffydd
- hyrwyddwr, a'r
- unrhyw un y mae'r deunydd yn cael ei argraffu ar ei ran (ac nad yw'n hyrwyddwr)

1.28 Yr hyrwyddwr yw'r unigolyn sydd wedi caniatáu i'r deunydd gael ei argraffu. Os bydd yr hyrwyddwr yn gweithredu ar ran grŵp neu sefydliad, rhai cynnwys enw'r grŵp neu sefydliad a'u cyfeiriad hefyd.

1.29 Gallwch ddefnyddio cyfeiriadau cartref neu swyddfa.

1.30 Os byddwch yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd, nid oes raid i'ch hysbyseb gynnwys manylion yr argraffydd, ond mae'n rhaid i enw a chyfeiriad argraffydd y papur newydd fod ar dudalen flaen neu gefn y papur newydd. Mae'n rhaid i'r

12

hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr ac unrhyw berson y mae'r hysbyseb yn cael ei gyhoeddi ar ei r(h)an. Os yw'r hyrwyddwr a'r person y mae'r hysbyseb yn caele ei gyhoeddi ar ei r(h)an yr un person, dim ond unwaith sy'n rhaid cynnwys eu henw a'u cyfeiriad.

Enghraifft o argraffnod

1.31 Dylai argraffnod safonol ar gyfer ymgeiswyr annibynnol edrych fel hyn:

Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd]

Hyrwyddwyd gan [enw'r asiant] o [cyfeiriad yr asiant] ar ran [enw'r ymgeisydd] o [cyfeiriad yr ymgeisydd]. Os yw'r ymgeisydd hefyd yn hyrwyddwr y deunydd, nid oes angen y rhan 'ar ran' yr argraffnod.

1.32 Ym mhob achos, rhaid i chi sicrhau fod yr argraffnod yn rhestru'r holl hyrwyddwyr a sefydliadau perthnasol. Mae mwy o esiamplau o argraffnodau yn ein [taflen ffeithiau i ymgeiswyr ar ddeunyddiau ac argraffnodau etholiad](#).

Mae mwy o esiamplau o argraffnodau yn ein [taflen ffeithiau i ymgeiswyr ar ddeunydd etholiadol ac argraffnodau](#)

Ble ddylech chi roi'r argraffnod?

1.33 Os yw'r deunydd ar un ochr – fel poster mewn ffenestr – rhaid i chi roi'r argraffnod ar wyneb y ddogfen. Os yw'n amlochrog, rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf a'r olaf.

Cyfyngau cymdeithasol

1.34 Dylech arddangos manylion eich argraffnod yn llawn ac yn amlwg ar eich proffil. Gallwch gynnwys dolen wedi ei byrhau i'ch argraffnod yn eich trydariad neu'ch postiad. Os nad yw'n ymarferol cynnwys argraffnod llawn ar ddelwedd, dylech gynnwys testun dolen neu logo neu arwyddlun â dol ynddi sy'n mynd at eich argraffnod llawn.

1.35 Ry'n ni hefyd yn argymhell os ydych yn defnyddio fformau trafod ar-lein, eich bod yn ei gwneud hi mor glir â phosibl eich bod yn ymgeisydd.

Gwefannau a deunydd electronig arall

1.36 Fe ddylech roi argraffnod ar ddeunydd electronig, fel gwefannau ac e-byst. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r person neu'r sefydliad y mae wedi ei gynhyrchu ar ei ran.

Beth i'w wneud a pheidio â'i wneud ar ddiwrnod y bleidlais

1.37 Dylech:

- Sicrhau bod unrhyw rifwyr sy'n gweithio i chi yn dilyn [gair i gall i rifwyr](#) ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau.
- Sicrhau bod eich ymgyrchwyr yn dilyn [Cod ymddygiad i ymgyrchwyr ym Mhrydain Fawr](#) sy'n gosod beth sydd a beth sydd ddim yn ymddygiad derbynol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned.
- Cydymffurfio â cheisiadau gan staff yr orsaf bleidleisio neu'r Swyddog Canlyniadau am ymgyrchu yn agos at orsafoedd pleidleisio. Dylech fodd bynnag allu rhoi eich neges i bleidleiswyr ar y diwrnod pleidleisio gan gynnwys mewn manau cyhoeddus tu allan i fannau pleidleisio.
- Sicrhau bod unrhyw asiantau sy'n mynychu gorsafoedd pleidleisio, sesiynau agor pleidlais bost neu'r cyfrif yn deall y rheolau am gyfrinachedd y bleidlais. Am ragor o wybodaeth, gweler ein dogfennau yn nodi gofynion cyfrinachedd ar gyfer [y bleidlais](#), [pleidleisio drwy'r post](#) a [y cyfrif](#). Ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru, rydym hefyd wedi cynhyrchu'r gofynion cyfrinachedd ar gyfer [agor pleidleisiau drwy'r post](#), [y bleidlais](#) a [y cyfrif](#) yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

1.38 Rhaid i chi beidio:

- Ymgyrchu yn agos at orsafoedd pleidleisio mewn modd y gellid ei hystyried gan bleidleiswyr fel modd ymosodol neu fygythiol (er enghraifft, grwpiau mawr o gefnogwyr yn cludo baneri, neu gerbydau gydag uchelseinydd neu wedi eu gorchuddio â deunydd ymgyrchu).

Gwirfoddolwyr i ymgeiswyr yw rhifwyr sy'n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhifau pleidleiswyr y pleidleiswyr sydd wedi pleidleisio.

14

- Torri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais. Mae hyn yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth fodern a bydd unrhyw dorri arnynt yn cael ei gymryd yn ddifrifol.
- Yn arbennig, os byddwch chi (neu eich asiantau) yn mynd i sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post cyn i'r bleidlais gau, rhaid i chi beidio â cheisio dynodi a chyhoeddi sut y mae pleidleisiau wedi eu marcio ar bapurau pleidleisio unigol.
- Cyn i'r bleidlais gau, cyhoeddi polau wrth fynd allan neu unrhyw bôl sy'n rhoi'r argraff ei bod ar sail gwybodaeth a roddwyd gan bobl ar ôl iddynt bleidleisio.

Cynnal hygrededd yr etholiad

1.39 Fel ymgeisydd byddwch chi yn un o wynebau cyhoeddus allweddol yr etholiad, a bydd eich gwrthwynebwyr, y cyfryngau a phleidleiswyr yn craffu ar eich ymddygiad. Dylai pleidleiswyr allu bod yn hyderus y byddwch yn gallu cydymffurfio gyda'r gyfraith a chynnal hygrededd yn y broses etholiadol.

1.40 Mae'r person sy'n asiant etholiadol i chi sy'n gyfrifol am reoli eich ymgyrch etholiadol ac, yn benodol, am sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am ei reolaeth ariannol.

1.41 Dylech hefyd sicrhau bod eich cefnogwyr yn deall y gyfraith yn llawn ac yn gwybod beth sydd angen gwneud i sicrhau y gall pleidleiswyr gymryd rhan yn yr etholiad yn hawdd.

1.42 Gall yr heddlu ond ymchwilio i honiadau o dwyll etholiadol lle bo tystiolaeth i ddangos bod trosedd wedi'i chyflawni, felly dylech allu cefnogi unrhyw honiadau pan fyddwch yn eu cyfeirio at yr heddlu. Dylech hefyd ystyried yr effaith ar hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd o wneud honiadau anwir neu heb sylwedd ynghylch ymddygiad ymgeiswyr eraill.

Nid yw'r Swyddog Canlyniadau na'r Comisiwn yn rheoleiddio unrhyw rai o'r troseddau hyn.

Am fanylion ar sut i adrodd am unrhyw honiadau o gamweddau etholiadol gweler paragraff **1.63**

Rhestr o droseddau

1.43 Dylech fod yn ymwybodol o nifer o droseddau etholiadol a heb fod yn etholiadol, a dylech gael eich cyngor cyfreithiol eich hun pan fydd hynny'n angenrheidiol. Mae'r canlynol yn rhestr sy'n rhoi crynodeb o'r troseddau etholiadol.

Llwgwobrwyo

1.44 Mae'r drosedd o llwgwobrwyo yn cynnwys pan fydd rhywun yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi unrhyw arian neu yn prynu unrhyw swydd i neu dros unrhyw bleidleisiwr, er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

Tretio

1.45 Mae unigolyn yn euog o dretio os bydd, cyn, yn ystod, neu ar ôl etholiad yn rhoi neu ddarparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddylanwadu yn llwgr ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio. Mae tretio yn gofyn am fwriad llwgr - nid yw'n berthnasol i letygarwch arferol.

Dylanwad gormodol

1.46 Mae unigolyn yn euog o ddylanwad gormodol os bydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliad, neu yn achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn cymell neu orfodi'r unigolyn i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

1.47 Gall unigolyn fod yn euog o ddylanwad gormodol hefyd os bydd yn rhwystro neu atal unrhyw bleidleisiwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio yn rhydd – hyd yn oed pan fydd yr ymgais yn aflwyddiannus.

1.48 Nid yw dylanwad gormodol yn cyfeirio yn unig at fynediad corfforol i'r orsaf bleidleisio. Er enghraifft, gall taflen sy'n bygwth defnyddio grym i gymell pleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd arbennig hefyd fod yn ddylanwad gormodol.

16

Cambersonadu

1.49 Cambersonadu yw pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall naill ai drwy'r post neu yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio, fel etholwr neu fel dirprwy. Mae'r drosedd hon yn berthnasol os yw'r unigolyn sy'n cael ei gambersonadu yn fyw, yn farw neu yn ffug. Mae cynorthwyo, annog, cynghori neu gaffael y drosedd o gambersonadu hefyd yn drosedd.

Datganiadau ffug

Am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd

1.50 Mae'n arfer anghyfreithlon gwneud neu gyhoeddi datganiad ffug o ffaith am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd er mwyn sicrhau bod ymgeisydd yn cael ei ethol mewn etholiad.

1.51 Nid yw datganiadau ffug nad ydynt am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon dan gyfraith etholiadol, ond fe ellid eu hystyried yn enllib neu ddifenwi.

1.52 Mae hefyd yn anghyfreithlon gwneud datganiad ffug bod ymgeisydd wedi tynnu ei enw yn ôl.

Ar bapurau enwebu

1.53 Mae'n drosedd rhoi datganiad ffug yn fwriadol ar bapur enwebu. Er enghraifft, os byddwch yn gwybod eich bod wedi eich gwahardd rhag cael eich ethol rhaid i chi beidio â llofnodi'r cydsyniad i enwebiad.

Gwybodaeth gofrestru ffug a chais ffug am bleidlais trwy'r post/trwy ddirprwy

1.54 Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth ffug ar ffurflen gais cofrestru, pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth ffug yn cynnwys llofnod ffug.

Cais ffug am bleidlais trwy'r post neu trwy ddirprwy

1.55 Mae unigolyn yn euog o drosedd os bydd yn ymgeisio am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy i gael pleidlais nad oes ganddo hawl iddi neu i amddifadu rhywun arall o'u pleidlais.

Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy

1.56 Mae troseddau amrywiol yn ymwneud â phleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post neu ddirprwy pan yn ddarostyngedig i anallu cyfreithiol i bleidleisio a chymell neu gaffael un arall i gyflawni'r drosedd.

Torri cyfrinachedd y bleidlais

1.57 Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r broses etholiadol neu sy'n mynychu rhai gweithrediadau gadw cyfrinachedd y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi copi o'r gofynion cyfrinachedd swyddogol i bawb sy'n mynd i agoriad pleidleisiau post neu gyfrif y papurau pleidleisio ac i asiantau pleidleisio.

Deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch

1.58 Mae rhai troseddau yn ymwneud yn benodol â deunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd ymgyrch gynnwys argraffnod, beidio â bod yn debyg i gerdyn pleidleisio a phaidio â chynnwys datganiad ffug o ran cymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd arall.

Casineb hiliol

1.59 Dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mae'n drosedd cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd bygythiol, difenwol neu sarhaus a fwriedir i ennyn casineb hiliol neu sy'n debygol o ennyn casineb hiliol.

Nid yw'r Swyddog Canlyniadau na'r Comisiwnyn rheoleiddio cynnwys deunydd ymgyrchu ac nid ydym yn gallu rhoi sylwadau ar gyfreithlondeb unrhyw ddeunydd etholiadol penodol y tu hwnt i'r hyn a drafodwyd yn y canllawiau hyn.

Rhoi adroddiad ar honiadau o gamweddau etholiadol

1.60 Os oes gennych reswm i gredu bod trosedd sy'n ymwneud ag etholiad wedi ei chyflawni, dylech yn gyntaf godi'r mater gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Canlyniadau yn eich ardal.

1.61 Os bydd hynny'n addas, bydd y mater yn cael ei ymchwilio gan yr heddlu. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Canlyniadau gyfeirio'r mater at yr heddlu neu roi manylion y cyswllt â'r heddlu yn eich ardal i chi fel eich bod yn medru rhoi adroddiad ar yr honiad.

1.62 Os oes gyda chi dystiolaeth bod trosedd etholiadol wedi ei chyflawni dylech gysylltu â'r heddlu **yn syth** gan ddefnyddio'r rhif ddim mewn argyfwng 101, heblaw bod trosedd yn cael ei chyflawni ar y pryd, lle dylech ddefnyddio'r rhif ffôn brys **999**. Mae gan bob heddlu Fan Cyswllt Penodol (a elwir yn SPOC) i arwain ar faterion etholiadol. Dylech fod yn barod i roi datganiad iddynt a chefnogi eich honiad.

1.63 Os nad ydych am roi datganiad i'r heddlu, gallwch adrodd eich pryderon yn ddiennw ar wefan [Taclor Tacle](#) neu drwy ffonio Taclo'r Tacle ar 0800 555 111.

1.64 Sylwer, os bydd eich honiad am faterion ariannol plaid, etholiad neu ymgyrchydd cofrestredig, fel gwario neu roddion, yna dylech ddilyn y cyngor ar roddir yn y ddolen ganlynol: www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement/making-allegations

Beth os byddwch wedi gwneud camgymeriad?

1.65 Os byddwch chi wedi gweithredu yn groes i'r rheolau etholiadau, gallwch wneud cais am ryddhad o gosbau am unrhyw drosedd.

1.66 Dylech geisio cyngor cyfreithiol bob amser os byddwch yn ystyried gwneud cais am ryddhad.

1.67 Am ragor o wybodaeth:

- ewch i www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/FormFinder.do, a nodi'r rhif ffurflen LOC002
neu
- cysylltwch â'r Swyddfa Deisebau Etholiad yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol yn:

The Election Petitions Office
Room E13
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL
Ffôn: 0207 947 6877